Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Coed Duon
# Blackwood Comprehensive School
# Ty Isha Terrace
# Blackwood
# NP12 1ER

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/04/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Coed Duon yn cwrdd mewn caban symudol sydd wedi`i leoli ar dir Ysgol Gyfun y Coed Duon. Mae Coed Duon wedi ei leoli mewn dyffryn yng Nghwent rhyw 10 milltir i'r gogledd o Gasnewydd. Cafodd y Cylch cyfrwng Cymraeg ei sefydlu dros 25 mlynedd yn ôl ac mae'n gwasanaethu`r Coed Duon a'r amgylchedd cyfagos. Mae`r caban a'r tir cyfagos wedi cael eu rhoi gan yr ysgol ac mae'r ddau sefydliad yn mwynhau perthynas sydd yn fuddiol iddynt.

Mae'r lleoliad ar agor am bum bore'r wythnos rhwng 9:30 y.b. a 11:45 y.b. yn ystod tymor yr ysgol. Mae'r lleoliad yn cael ei redeg gan bwyllgor rheoli gwirfoddol ac mae'n ddarparwr addysg fel aelod o Bartneriaeth Gofal Plant a Datblygiad Blynyddoedd Cynnar Caerffili. Mae hefyd yn aelod cofrestredig o Fudiad Meithrin gan dderbyn y wobr " Mudiad Rhagorol" yn 2010-2013.

Nid yw cefndir y plant yn cael ei ystyried i fod yn ffyniannus ac yn cael ei ddisgrifio fel un sy'n cynnwys rhai ardaloedd o dan anfantais economaidd. Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant rhwng 2½ a 4 oed. Mae wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC ) i ddarparu ar gyfer uchafswm o 26 o blant. Ar hyn o bryd mae 18 ar y gofrestr, 7 yn dair blwydd oed, gyda 3 yn cael eu hariannu - mae'r 4 plentyn arall yn cael eu hariannu ar ôl y Pasg.

Daw bron yr holl blant o gartrefi Saesneg eu hiaith. Nid oes unrhyw blant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn bresennol. Mae'r lleoliad yn medru darparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol er nid oes un o'r garfan bresennol wedi'i nodi ag anghenion o'r fath.

Mae'r caban yn darparu digon o le ar gyfer y plant. Mae defnydd da iawn yn cael ei wneud o'r gofod sydd ar gael er mwyn rhoi amrywiaeth eang iawn o gyfleusterau i`r plant sydd wedi'u cynllunio'n dda i gwrdd ag anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r caban wedi cael ei adnewyddu`n helaeth a`i beintio yn ddiweddar ac mae arddangos gwaith y plant yn gwella'r amgylchedd gwaith ymhellach. Mae yna hefyd doiledau a chyfleusterau ymolchi ar gyfer y plant ac mae`r caban symudol hefyd yn cynnwys cyntedd lle gall rhieni aros cyn ac ar ôl y sesiynau.

Y tu allan, mae ardal ddeniadol ac amgaeedig sydd wedi`i datblygu'n helaeth. Mae'r ardal hon yn ychwanegiad gwych ac yn darparu`r plant â chyfleusterau gwerth chweil iawn, gyda llawer ohoni o dan ganopi mawr. Mae`r ffens sydd wedi`i chodi yn ddiweddar yn sicrhau diogelwch y plant.

Mae`r lleoliad wedi`i staffio gan arweinydd a dau ddirprwy arweinydd sydd â chymwysterau a phrofiad da. Maen nhw`n cael eu cefnogi gan ddau gynorthwy-ydd a chynorthwy-ydd gwirfoddol. Mae gan bob un ohonynt feistrolaeth dda o'r iaith Gymraeg. Mae`r rhieni yn rhoi cefnogaeth dda iawn i`r lleoliad. Mae'r rhan fwyaf o`r plant sy`n gadael y lleoliad yn trosglwyddo i'r ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol.

Cafodd y lleoliad ei arolygu yn fwyaf diweddar gan AGGCC yn 2012 ac Estyn ym mis Tachwedd 2007. Mae'r argymhellion wedi cael sylw.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- cynnydd y plant a`r safonau sy`n cael eu cyflawni drwyddi draw ac yn enwedig eu datblygiad iaith;
- y cyfleoedd dysgu sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant;
- disgwyliadau uchel yr arweinydd a`r staff o`r plant, sy`n cael eu cyflawni i raddau helaeth iawn yn ymarferol;
- y gofal, cymorth ac arweiniad sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant;
- ansawdd yr addysgu;
- y bartneriaeth gyda`r rhieni a`u cefnogaeth;
- agwedd ac ymddygiad y plant.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella`r lleoliad yn dda oherwydd:

- ansawdd yr arweinyddiaeth a`r rheolaeth sy`n canolbwyntio`n dda ar roi`r ddarpariaeth orau posibl i`r plant;
- yr ysbryd tîm ymysg y staff;
- yr hanes da o sicrhau gwelliant;
- y gefnogaeth sy`n cael ei rhoi gan y rhieni, y gofalwyr ac aelodau`r gymdeithas;
- y gefnogaeth sy`n cael ei rhoi gan athrawes gefnogi`r awdurdod lleol a Mudiad Meithrin.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 gynllunio gweithgareddau i ymestyn a herio plant unigol;

A2 cynnwys rhieni ymhellach yn nysgu`r plant, yn enwedig yn yr iaith Gymraeg.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r holl blant yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda. Maen nhw`n gwneud cynnydd arbennig o dda wrth gaffael yr iaith Gymraeg mewn perthynas â'u "man cychwyn". Mae`r plant yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a`u medrau ar draws y cwricwlwm cyfan ac mewn gweithgareddau sy'n cryfhau ac yn datblygu eu dysgu.

Mae'r holl blant yn gwrando'n dda mewn perthynas â'u hoed ac yn mwynhau storïau. Mae`r plant hŷn a mwy galluog yn dechrau mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath ac yn dangos bod eu sgiliau iaith Gymraeg yn datblygu wrth ateb cwestiynau yn seiliedig ar y stori. Mae'r holl blant yn mynegi eu teimladau trwy ystumiau a chanu ac yn enwedig yn mwynhau caneuon actol fel "Pen, ysgwyddau, coesau, traed" a "Lan a lawr, nôl a mlaen".

Mae pob plentyn yn ymateb yn dda i ymarferwyr ac yn barod i ddilyn cyfarwyddiadau, fel yn ystod cofrestru. Mae`r plant hŷn yn adnabod eu henwau ysgrifenedig ar gardiau a'r rhai iau yn gwneud hynny hefyd gydag ychydig o anogaeth. Mewn achos cafodd ei weld yn ystod yr arolygiad, roedd plentyn, yn ystod gweithgareddau chwarae, wedi chwarae rôl fel aelod o staff gan ailadrodd y gweithgaredd o gofrestru gyda grŵp o ffrindiau. Cafodd y gweithgaredd ei wneud yn drefnus gyda'r cardiau enw ar y bwrdd cofrestru.

Mae pob plentyn yn sgwrsio wrth chwarae, gyda llawer yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg.

Mae llawer o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac mae bron pob yn eu trin gyda gofal. Mae`r plant hŷn yn troi tudalennau yn briodol ac yn adnabod rhai o'r cymeriadau yn y storïau.

Mae'r holl blant yn arbrofi gyda chreu marciau, gan ddefnyddio sialc, creonau a phensiliau. Mae`r plant mwyaf galluog yn dal pensiliau yn briodol, yn dilyn siapiau a dotiau ar gardiau arddangos. Mae`r plant yn dechrau deall pwrpas ysgrifennu, fel gwneud rhestr o`r hyn sydd angen arnynt.

Mae pob plentyn yn dysgu i gyfrif, fel cyfrif merched a bechgyn sy`n bresennol yn ystod cofrestru. Mae`r plant iau yn cyfrif ar y cof ond mae lleiafrif yn dechrau gwerthfawrogi pwrpas rhif. Mae`r plant hŷn yn adnabod rhifau ar ffurf ysgrifenedig ac yn cyfateb rhif, siapiau a lliw yn gywir. Mae'r plant yma`n dechrau defnyddio iaith fathemategol sylfaenol, fel "mawr a bach". Mae'r defnydd o deganau fel tiliau arian yn eu siop yn rhoi cyfleoedd iddynt ymgyfarwyddo ag arian.

Mae`r plant yn dod yn fwyfwy cyfarwydd â thechnoleg gyfredol. Maen nhw`n trin llygoden y cyfridiadur yn gymwys ac yn symud eiconau`r sgrîn yn briodol. Maen nhw`n chwarae gyda ffonau symudol ac yn gwybod bod botymau a switsys yn troi offer ymlaen ac yn eu diffodd.

Mae`r plant yn dangos gallu cynyddol i ddefnyddio eu sgiliau meddwl, fel wrth chwarae y tu allan yn yr amrywaieth eang o weithgareddau sydd ar gael iddynt, fel adeiladu gyda thywod .

Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o bethau byw yn cael ei gefnogi'n dda gan eu gweithgareddau garddio ac arsylwi penbyliaid yn datblygu.

Mae'r lleoliad yn arddangos yr ystod eang o weithgareddau creadigol sydd wedi cymryd lle. Mae'r plant yn mwynhau peintio a gwneud gwahanol arteffactau sy`n gysylltiedig â`u thema.

Mae'r lleoliad yn llwyddiannus wrth baratoi'r plant ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn oherwydd yn ystod eu hamser yn y lleoliad mae`r plant yn gwneud cynnydd da iawn yn yr iaith. Mae'r plant hŷn yn datblygu dealltwriaeth dda o eiriau Cymraeg, ac ymadroddion a brawddegau sylfaenol. Mae`r plant yn deall mwy nag y maen nhw`n siarad, ond yn ystod amser stori roedd grŵp bach o blant wedi ateb cwestiynau syml yn y Gymraeg ac roedd pob plentyn yn defnyddio geiriau Cymraeg wrth gael eu hannog. Mae gan blant stôr eang o ganeuon Cymraeg – mae`r diwrnod yn cael ei gyflwyno gyda "Bore da ffrindiau” a " Ble mae ... ?” i adnabod eu henwau .

Roedd trafodaeth gyda rhieni a chanlyniad yr holiaduron cyn - arolygiad yn nodi lefel uchel o foddhad â'r cynnydd y mae eu plant yn ei wneud yn yr iaith.

**Lles: Da**

Mae'r holl blant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac mae hyn yn amlwg wrth iddynt gyrraedd yn y bore. Mae eu synnwyr o gyffro yn amlwg wrth iddyn nhw gael croeso cynnes gan y staff ac yna cymryd rhan yn fuan yn yr ystod eang o weithgareddau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer. Mae gan bob plentyn agweddau da ac yn chwarae gyda'u cydweithwyr yn hapus. Mae ymddygiad yn dda iawn ac mae'r plant yn gwneud defnydd llawn o'r holl feysydd gweithgarwch, gan ddewis y rhai sydd o ddiddordeb iddynt. Maen nhw`n chwarae yn unigol ac mewn grwpiau gan ddangos ystyriaeth tuag at ei gilydd. Wrth i blant fynd yn hŷn maen nhw`n dangos mwy o allu i gynnal eu gallu i ganolbwyntio ar dasgau.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r profiadau dysgu yn cynnwys yr holl blant yn llwyddiannus ac yn ffocysu'n dda ar annog y plant i wneud cynnydd tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu plant a gwerthfawrogiad gadarn o athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant ac yn llwyddo i gynnal diddordeb ac ymrwymiad plant.

Mae`r cynllunio yn cael ei wneud ar y cyd ac yn seiliedig ar brofiad ac arfer dda. Mae`r cynllunio`n ddigon hyblyg er mwyn ymateb i ddiddordebau`r plant ac yn cynnwys gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth a thu allan sy'n ysgogi`r plant ar draws pob maes dysgu.

Mae medrau`r plant, yn enwedig eu medrau llythrennedd a rhifedd yn datblygu'n dda ar draws y cwricwlwm. Mae datblygiad medrau yn cael ei gydlynu'n dda ac mae`r cynllunio yn dangos yn glir y cydlyniad ym mhrofiadau dysgu'r plant. Mae ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu sgiliau plant fel ar ôl iddi fwrw eira. Yn dilyn gweithgareddau chwarae yn yr eira, cafodd y plant eu cyflwyno i'r cysyniad o eira`n toddi i ddŵr. Mae`r sesiynau â ffocws yn cael eu cynllunio'n dda a datblygiad y plant yn cael eu monitro a'u cefnogi yn ôl yr angen.

Mae`r cyfleoedd dysgu sy`n cael eu cynllunio yn rhoi anogaeth i`r plant i ffurfio perthynas dda gydag eraill ac i barchu ei gilydd. Mae`r plant yn cael eu hannog i ddod yn ddysgwyr annibynnol ac i arbrofi. Cafodd hyn ei weld pan oedd y plant yn arnofio hwyaid tegan mewn dŵr. Roedd y plant yn hyderus a daethon nhw i sylweddoli bod yr hwyaid yn arnofio i lawr y cafn yn gyflymach os oedd mwy o ddŵr yn cael ei ychwanegu. Mae hyn yn enghraifft dda o'r plant yn datblygu eu sgiliau meddwl.

Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o bethau byw yn datblygu'n dda trwy weithgareddau garddio lle mae`r plant yn dysgu sut i ofalu am bethau byw.

Mae darpariaeth ar gyfer sgiliau creadigol y plant yn cynnwys arbrofi gyda phaent a deunyddiau eraill i gynrychioli eu syniadau, ac mae chwarae corfforol yn cael lle amlwg mewn gweithgareddau y tu allan.

Mae`r gweithgareddau sy`n cael eu cynllunio a gweithgareddau chwarae anffurfiol yn sicrhau bod digon o gyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau a bod cydlyniad ym mhrofiadau'r plant. Mae staff hefyd yn cydnabod cyfleoedd i ymestyn profiadau plant, yn enwedig y gwaith o gynllunio ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu iaith Gymraeg y plant a'r dimensiwn Cymreig yn dda. Mae'r holl blant yn cael eu trochi yn yr iaith ac mae`r holl gyfathrebu yn Gymraeg. Mae cyfleoedd yn cael eu rhoi i`r plant i ddatblygu eu hiaith ac i hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau o ddiwylliant Cymru.

**Addysgu: Da**

Mae`r ymarferwyr yn deall athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn enwedig sut mae`n briodol i sut mae`r plant yn dysgu. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn ac mae'r rhain yn cael eu cyflawni i raddau helaeth iawn yn ymarferol. Mae`r plant yn dysgu drwy chwarae ac mae profiadau dysgu ysgogol yn cael eu darparu ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o adnoddau y tu mewn i'r ystafell ddosbarth a thu allan i gefnogi dysgu`r plant.

Mae`r gweithgareddau`n cael eu cynllunio'n dda - mae ystod dda o weithgareddau gwahanol ac amrywiol yn ystod sesiwn y bore yn sicrhau bod plant yn cynnal eu diddordeb ac yn cymryd rhan yn llawn. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau

sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u cyfeirio gan yr ymarferwyr, ac mae`r ymarferwyr yn gwybod pryd mae'n briodol i ymyrryd yn nysgu'r plant.

Mae ymddygiad y plant yn cael ei reoli'n dda ac mae hyn yn darparu `r plant ag awyrgylch cartrefol. Mae'r staff yn fodelau iaith da sy`n sicrhau bod y plant yn cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg. Mae cwestiynu yn cael ei ddefnyddio`n dda i ddatblygu iaith y plant. Mae ymarferwyr ychwanegol yn cael eu defnyddio`n effeithiol.

Mae cynnydd a lles y plant yn cael eu tracio ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae staff yn cofnodi cyflawniadau plant, sy`n cael eu cofnodi yn fwy ffurfiol mewn llyfrau cofnodion plant unigol. Mae canlyniadau`r asesu yn cael eu defnyddio wrth gynllunio gweithgareddau i`r dyfodol. Fodd bynnag, nid yw anghenion penodol plant unigol yn cael eu nodi`n ddigonol bob amser er mwyn diwallu eu hanghenion a`u herio.

Dywedodd rhieni eu bod yn cael gwybodaeth dda am gyflawniad a chynnydd eu plant. Nid yw`r rhieni, fodd bynnag, yn cael eu hysbysu bob amser o ddatblygiad iaith y plant a'r hyn y gallant ei wneud i'w helpu i wella .

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Mae trefniadau effeithiol yn eu lle ac mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad cyffredinol plant, gan gynnwys eu hiechyd emosiynol a chorfforol. Mae barn y rhieni`n cefnogi`r casgliad hwn yn llawn.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i blant ddatblygu synnwyr o chwilfrydedd. Mae ymweliadau â mannau o ddiddordeb, fel fferm leol, yn galluogi`r plant i ddatblygu synnwyr o ryfeddod am y byd tu allan i'w profiadau uniongyrchol. Mae `r Cylch yn hyrwyddo gwerthoedd fel gonestrwydd, chwarae teg a phryder am ei gilydd. Mae`r rheolau syml o ymddygiad yn cael eu deall a`u gweithredu. Mae`r plant yn cael gwneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i wneud penderfyniadau. Mae trefniadau da yn eu lle i annog plant i ymddwyn mewn modd cynaliadwy. Mae`r plant yn ymwybodol o ddeunyddiau y gellir eu compostio a'r defnydd a wneir o gompost. Mae papur gwastraff yn cael ei ailgylchu.

Mae'r plant yn datblygu dealltwriaeth o rai o draddodiadau a dathliadau Cymru, gan gynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Maen nhw`n gwisgo`n briodol, yn gwneud arteffactau perthnasol ac yn blasu bwydydd fel pice bach. Mae diwylliannau eraill hefyd yn cael eu cyflwyno, gan gynnwys y dathliad o Divali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol ar waith ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes un o'r plant presennol wedi cael ei nodi fel rhai sydd ag anghenion arbennig.

Mae gan y lleoliad drefniadau da ar waith ar gyfer diogelu plant. Mae safle`r lleoliad o fewn maes yr Ysgol Gyfun yn fantais o ran cynnal diogelwch yr holl sy`n mynychu'r lleoliad. Mae'r adeilad yn cael ei chadw dan glo unwaith y bydd plant yn cyrraedd yn y bore ac mae hyn yn sicrhau na all unrhyw un ddod i mewn neu adael heb rybudd.

Mae'r ardal y tu allan yn ddiogel o fewn ardal sydd wedi'i ffensio ac mae'r giât yn cael ei gadw dan glo. Mae`r plant yn cael eu goruchwylio bob amser.

Mae`r staff yn brofiadol ac wedi mynychu cyrsiau perthnasol er mwyn bod yn gwbl ymwybodol o faterion amddiffyn plant.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae`r plant yn elwa o amgylchedd dysgu eithriadol o dda. Mae`r cyfleusterau ar gyfer y plant yn rhagorol ac yn glod i'r ymarferwyr, y pwyllgor rheoli a phawb sydd wedi helpu i greu`r amgylchedd dysgu.

Mae'r ardaloedd gweithgareddau dan do yn cael eu cynllunio`n dda iawn i wneud y defnydd gorau o`r lle sydd ar gael ac i ddarparu profiadau i blant yn unol ag athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Mae`r ardaloedd o weithgareddau wedi eu trefnu`n dda ac yn ddychmygus gydag adnoddau sy`n hygyrch i`r plant. Mae gan bob ardal o weithgaredd “aide memoire” o gwestiynau ac atebion defnyddiol sy'n helpu i ddatblygu'r iaith Gymraeg. Mae`r adnoddau a`r deunyddiau sydd wedi`u cynhyrchu gan yr ymarferwyr yn ddeniadol ac mewn cyflwr da iawn, fel sydd yn yr ardal mathemateg ac mae hyn yn annog y plant i gymryd rhan. At ei gilydd , mae'r ardal addysgu tu fewn yn amgylchedd dysgu gwych sydd yn cael ei wella`n ymhellach gan enghreifftiau o waith y plant.

Nodwedd nodedig arall yw'r defnydd sy`n cael ei wneud o'r gwahanol feysydd gweithgarwch gan y plant. Mae ganddynt sgiliau i wneud penderfyniadau sydd wedi`u datblygu'n dda, ac mae pob ardal yn cael ei defnyddio fel bod yr ardal gyfan yn gymuned brysur lle mae`r holl blant yn cymryd rhan weithredol ac yn cael eu cefnogi gan y staff yn ôl yr angen. Mae`r ymarferwyr ychwanegol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr o ran sicrhau bod adnoddau yn eu lle ac ar gael i'r plant.

Mae hwn yn amgylchedd gweithgar iawn sy`n arddangos ethos eithriadol o dda lle mae pob plentyn yn cael hawl gyfartal i bob agwedd o`r cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth y tu allan yn eithriadol ac mae`n cael ei defnyddio`n dda iawn i ymestyn profiadau a dysgu`r plant. Mae'n darparu `r plant â llawer o weithgareddau llawn dychymyg sydd yn bennaf o dan do. Mae cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau grŵp bach mewn sied bren sydd wedi`i sefydlu fel ardal waith ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd, gyda llyfrau nodiadau ar gyfer ysgrifennu ac ardal stori.

Mae ardal arddio ar gyfer tyfu planhigion, a thŷ doliau bach. Mae'r ardal ddŵr yn galluogi plant i arbrofi ac mae'r “ardal adeiladu” yn cynnwys offer, gan gynnwys tegan i "gymysgu sment”. Mae arwyneb chwarae meddal i`r ardal.

Ar y cyfan, mae`r ystafell addysgu a`r tu allan yn darparu amgylchedd dysgu sy`n eithriadol o ddychmygus ac yn greadigol iawn.

Mae`r lleoliad wedi`i staffio`n hael - mae gan yr arweinydd dau ddirprwy arweinydd a dau gynorthwy-ydd. Mae cymwysterau da ganddynt a phrofiad helaeth o weithio gyda phlant ifanc. Maen nhw`n gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd ac yn rhannu eu

synnwyr o fwynhad o weithio gyda'i gilydd a chyda phlant ifanc. Mae hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i sefydlu'r teimlad cynnes a chefnogol sydd yn y lleoliad.

Mae`r adnoddau`n cael eu defnyddio`n dda iawn ac yn cyfateb yn dda iawn i fynd i'r afael â gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion penodol y plant.

Mae'r adeilad a'r ardal allanol yn ddiogel – mae ffens chwe throedfedd yn amgylchynu`r ardal y tu allan sy'n cael ei gadw dan glo. Mae`r plant yn cael eu goruchwylio bob amser ac mae drws yr ystafell ddysgu dan glo bob amser. Yn gyffredinol, mae hyn yn amgylchedd dysgu rhagorol ar gyfer y plant.

Mae'r amgylchedd lleol yn cael ei ddefnyddio`n dda ar gyfer ymweliadau a thrwy gael ymwelwyr i'r lleoliad, fel yn ystod yr arolygiad gan yr heddlu lleol, sy`n gwneud cyfraniad gwerthfawr i addysg y plant.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn darparu`r lleoliad a synnwyr cryf o ddiben sy'n hyrwyddo ac yn cynnal gwelliant. Mae'n canolbwyntio'n dda ar sicrhau`r ddarpariaeth orau posibl ar gyfer y plant ac ar ymestyn eu profiadau. Mae gan yr arweinydd ddisgwyliadau uchel o'i staff ac maen nhw`n ymateb yn gadarnhaol. Mae'r arweinydd yn ei ffordd anymwythiol yn monitro ac yn gwerthuso'r ddarpariaeth yn effeithiol. Mae`r staff yn gweithio'n dda iawn fel tîm o ran cynllunio gweithgareddau i`r plant ac wrth redeg y lleoliad o ddydd i ddydd. Mae`r staff yn deall eu rolau`n llawn ac yn derbyn eu cyfrifoldebau`n llawn. Mae ethos cadarnhaol yn amlwg lle mae`r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu cyfraniadau yn cael eu parchu.

Mae amser yn cael ei reoli'n dda ac mae sesiwn y bore yn symud ar gyflymder da sy`n sicrhau ymgysylltiad gweithredol pob plentyn. Mae`r cynllunio ar y cyd yn gwneud y defnydd gorau o syniadau a phrofiadau pob ymarferydd. Maen nhw`n helpu ei gilydd ac yn cefnogi`r plant yn weithredol yn yr holl weithgareddau. Maen nhw`n gwybod yn dda pa bryd i ymyrryd, ac mae`r synnwyr o ddiben yn amlwg yn hyrwyddo amgylchedd dysgu gweithredol. Mae anghenion y plant yn ganolog i waith y lleoliad, mae`r plant yn cael eu rheoli`n dda, a chanlyniad hyn yw awyrgylch cynnes a chartrefol.

Mae perthynas waith agos gyda'r pwyllgor rheoli sydd yn gefnogol iawn o'r staff a'u cyfraniad at addysg y plant. Mae arfarnu`r staff yn cael ei wneud yn flynyddol ac yn nodi meysydd ar gyfer datblygiad.

Mae`r polisïau a`r mentrau gan gynnwys blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu gweithredu'n gyson.

At ei gilydd, mae'r lleoliad yn arddangos natur hunan -feirniadol lle mae gwybodaeth berthnasol am y lleoliad yn cael ei defnyddio'n dda gan sicrhau ffocws cynaliadwy ar

gyflawni cynnydd yn seiliedig ar ddarparu'r profiadau gorau posibl i'r plant. Mae'r canlyniadau ar gyfer y plant yn dda .

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r lleoliad yn arddangos diwylliant cadarnhaol o hunan-arfarnu sy'n amlwg ym mhob agwedd o waith y lleoliad. Mae'n nodi meysydd ar gyfer datblygu yn llwyddiannus ac er bod hyn wedi arwain at gyfleusterau a darpariaeth dda iawn, nid yw'n hunanfodlon, ond yn hytrach yn meddwl ymlaen i`r dyfodol. Mae barn pawb sydd â diddordeb, gan gynnwys rhieni, yn cael eu hystyried bob amser ac mae hyn wedi sicrhau eu cymorth a'u cefnogaeth, yn enwedig wrth ddarparu a chynnal y cyfleusterau tu allan. Mae`r gwelliannau yn cael eu blaenoriaethu ac mae strategaethau cadarn wedi sicrhau bod y gwelliannau sydd angen eu gweithredu o fewn y cyllid sydd ar gael.

Ar y cyfan, mae hyn wedi arwain at ddarpariaeth a safonau cyflawniad a lles plant sydd wedi gwella`n fawr.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad gysylltiadau sydd wedi`u sefydlu`n dda gyda`r holl bartneriaid sy'n ymwneud â lles a chyflawniad y plant. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i athroniaeth y lleoliad o gynnwys rhieni a'r gymuned, a'r camau gweithredol y mae'n ei gymryd i gynnwys pawb sy'n gysylltiedig yn natblygiad y plant.

Dywedodd rhieni yn yr holiadur cyn –arolygiad, ac wrth drafod, eu bod yn arbennig o fodlon ar y cynnydd mae eu plant yn ei wneud, yn enwedig yn y ffordd maen nhw`n caffael yr iaith Gymraeg. Roedd rhieni yn werthfawrogol iawn o agosatrwydd y staff a'r addysgu sydd o ansawdd da.

Mae`r rhieni a`r gofalwyr yn arbennig o werthfawrogol o'r ystod eang o brofiadau mae`r plant yn eu mwynhau a bod pob plentyn yn cael eu trin yn deg a chyda pharch. Ar y cyfan, maen nhw`n adrodd bod pob plentyn yn mwynhau mynychu a bod plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae`r rhieni a`r gofalwyr yn hapus bod eu plant yn ddiogel yn y lleoliad.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau effeithiol gyda'r ysgol gynradd sy'n derbyn y plant. Mae athrawon o'r ysgol yn ymweld â'r lleoliad ac mae`r plant yn mynychu gweithgareddau`r ysgol fel arfer yn ystod y tymor cyn trosglwyddo. Mae cysylltiadau da iawn yn bodoli gydag Ysgol Gyfun y Coed Duon. Mae disgyblion o`r ysgol yn cael profiad o weithio gyda phlant ar "leoliadau”. Maen nhw`n cael eu cefnogi gan staff y lleoliad. Fel y crybwyllwyd, mae`r lleoliad yn elwa o'r tir a roddwyd iddo gan yr ysgol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn rhagweithiol ac yn gefnogol o waith y Cylch ac mae hyn yn gwella gwaith y lleoliad.

Mae'r lleoliad hefyd yn elwa o'r gefnogaeth a'r cyngor a ddarperir gan athrawes gefnogol yr Awdurdod Lleol a chynrychiolydd y Mudiad Meithrin. Mae cysylltiadau cymunedol yn cael eu defnyddio`n effeithiol i gefnogi plant yn ôl yr angen.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad adnoddau da iawn, sy'n cael eu defnyddio'n dda i gefnogi`r dysgu. Mae gan y staff a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth manwl o'r gyllideb. Dros y blynyddoedd mae`r gwariant wedi cael ei fonitro`n ofalus. Mae gwelliannau i'r ddarpariaeth wedi cael eu blaenoriaethu a'u cysylltu â'r cyllid sydd ar gael.

Mae penderfyniadau ariannol yn cael eu gwerthuso`n agos gan y pwyllgor rheoli ac maen nhw wedi bod yn effeithiol iawn wrth godi arian a gwneud defnydd da iawn o gymorth gan y gymuned. Mae'r ysgol gyfun wedi darparu`r lleoliad â'r tir a`r adeiladau. Fodd bynnag, mae'r lleoliad wedi ei foderneiddio`n helaeth gan yr ymarferwyr a`r rheolaeth presennol. Yn sylfaenol i bob datblygiad yw'r effaith gadarnhaol ar ganlyniadau, gan gynnwys safonau cyflawniad y plant o gyflawniad, cynnydd a lles. Mae hyn wedi cael ei gyflawni`n llwyddiannus yn ymarferol.

Mae'r staff yn cynnal eu sgiliau proffesiynol trwy fynychu cyrsiau lleol, cwrdd â staff eraill ac ymweld â lleoliadau eraill. Mae hon yn gymuned ddysgu broffesiynol, sefydledig lle mae`r staff yn rhannu eu harbenigedd proffesiynol gan sicrhau darpariaeth o ansawdd da ar draws pob agwedd o`r lleoliad.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian .

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

**Nid oes unrhyw sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd (llai na 10).**

## Atodiad 2

**Yr  arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |